Dŵr Cymru
Welsh Water

Heol Pentwyn
Nelson
Treharris
Morgannwg Ganol
CF46 6LY

Ffôn: +44 (0)1443 452300
Ffacs: +44 (0)1443 452323
Safle gwe: www.dwrcymru.com

Dyddiad: 28 Mehefin 2010
Ymholiadau, cysylltwch â:
0800 0520130
Rhif cyfeirnod: 17970162

Annwyl Gwsmer

Par: Newidiadau i'r rhwydwaith dŵr yn eich ardal

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cadw golwg yn barhaus ar eu sefyllfa adnoddau dŵr er mwyn sicrhau y gallwn gyflenwi'n cwsmeriaid bob amser. Mae eleni wedi gweld tywydd sych iawn, a gyda darogan bod yna haf poeth a sych o'n blaenau, 'rydym yn dymuno'ch hysbysu chi ynglŷn â gwaith 'rydym yn ei gynllunio er mwyn diogelu'ch cyflenwad dŵr.

Er mwyn sicrhau parhad di-dor y dŵr a gyflenwir i chi yn ystod yr haf, fe fyddwn yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar system prif bibell gwaith dŵr Talybont. Fe fydd y gwaith yn digwydd dros gyfnod yr haf. Pan fydd y gwaith hwn yn mynd ymlaen, fe allech sylwi ar ychydig bach o afliwiad dros dro yn eich cyflenwad dŵr, oherwydd bydd rhywfaint o newid llif y dŵr yn y pibellau. Tra byddwn yn gwneud popeth bosib i leihau'r afliwiad, os oes yna afliwio yn digwydd, efallai y bydd arnom angen gwneud rhywfaint o waith llifolchi (fflysio) lleol ychwanegol ar y brif bibell ddŵr er mwyn clirio'r broblem. Os ydych yn profi afliwiad yn y dŵr, a fyddech cystal ag agor tap dŵr oer (fel arfer, eich tap cegin) tan y bydd y broblem yn clirio, ac osgowch ddefnyddio dŵr mewn peiriannau golchi oherwydd gall y dŵr achosi rhywfaint o staenio ar rai dillad.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth o gwbl, cofiwch beidio â phetruso cyn ffonio'n canolfan alwadau ar 0800 052 0130. Mae'r rhif hwn ar gael pedair awr ar hugain y dydd.

Tra ein bod yn cwblhau'r gwaith hwn, ni fyddai arnom angen fel rheol cael mynediad i'ch eiddo. Os, fodd bynnag, bydd arnom angen mynediad, yna gofynnwch, os gwelwch yn dda, am gael gweld cerdyn adnabod (ID) yr unigolyn cyn caniatáu iddo gael mynediad. Os oes gennych bryderon, neu os yw galwr yn dangos cerdyn adnabod ac yr hoffech wirio pwy ydynt, a fyddech cystal â ffonio'n Llinell Gymorth Galwyr Ffug ar 0800 281 141 - mae llinellau yn agored bedair awr ar hugain y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

'Rydym yn ymddiheuro am unrhyw anhwylustod dros dro y gall y gwaith angenrheidiol hwn ei achosi.

Fe ellir canfod rhagor o wybodaeth yn darparu cynghorion defnyddiol ynglŷn â sut y gallwch chi leihau gwastraff dŵr yn ac o amgylch y cartref ar ein gwefan yn www.dwrcymru.com.

Yr eiddoch yn gywir

Ceris Van de Vyver
Rheolwr yr Uned Ddosbarthu

glas
Glas Cymru Cyfyngedig

Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru - cwmni 'nid-er-elw'.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru rhif 2366777. Swyddfa gofrestredig: Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY.

Abergavenny
Govilon
Llantilio Pertholey
Mardy
Coed Morgan
Llanover
Llanvair Kilgeddin
Llanvihangel Gobion
Nanyderry
The Bryn
Clytha
Hardwick
Penpergwm
Llanfoist
Gilwern
Llangattock Lingoed
Llantilio Crossenny
Coldbrook
Llanddewi Rhydderch
Llanvapley
Pantygelli
Bryn-y-gwenin
Llandewi Skirrid
Llanvetherine
Pandy
Llanelly Hill
Clydach
Chain Bridge

Abertillery
Blaina
Aberbeeg
Cwmtillery
Penybont
Six Bells
Brynithel
Llanhilleth

Brecon
Llanwern
Bwlch

Crickhowell
Cwmdu
Cwrt y Gollen
Dan y Parc
Ffawyddog
Glangrwyney
Llangattock

Ebbw Vale
Garnlydan
Beaufort
Brynmawr
Nantyglo
Newtown

Monmouth
Llanfihangel Ystern Llewern
Talycoed

Newport
Crumlin
Swffryd Crumlin

Pontypool
Llanvihangel
Penperlleni
Glascoed
Little Mill
Wainfelin

Usk
Llangwm
Llandenny
Bettws Newydd
Llansoy
Cold Harbour
Gwehelog
Llancayo
Llangybi
Monkswood
Llangeview
Goytre
Kemeys Commander
Trostrey
Llanbadoc